**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 20 Mawrth 2018**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Byddai'r Cynghorydd Hugh Evans a Huw Hilditch-Roberts yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer y cyfarfod. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Y Cynghorydd Meirick Davies – Cysylltiad Personol – Eitem rhif 5 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Brian Jones – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 5 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Tony Thomas – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 5 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Arwel Roberts – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 7 ar y Rhaglen |
| **3** | MATERION BRYS | Caniataodd y Cadeirydd adroddiad llafar ar y penderfyniadau a wnaed o dan y darpariaethau penderfyniadau brys yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn dilyn gohirio’r cyfarfod Cabinet diwethaf. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2018 fel cofnod cywir ac y dylai’r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | AILWAMPIO MAES PARCIO DAN DDAEAR Y RHYL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol i fwrw ymlaen i adnewyddu maes parcio tanddaearol y Rhyl, a*<br><br>*(b) chyfarwyddo swyddogion i fynd ymlaen i roi’r prosiect ar waith.* |
| **6** | DILEU TRETHI BUSNES ANADFERADWY | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno i ddiddymu’r gwerthoedd anadferadwy fel y nodir yn Nhabl 1 yr adroddiad.* |
| **7** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2017/18 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllid y cytunwyd arni;*<br><br>*(b) bod swyddogion yn paratoi crynodeb o’r gost ariannol i’r Cyngor mewn perthynas â’r* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 20 Mawrth 2018**

| **Agenda Item No** | **Topic** | **Decision** |
|---|---|---|
| | | *tywydd garw a brofwyd y gaeaf hwn gan gynnwys amcangyfrif o'r gostyngiad mewn incwm a achoswyd gan y digwyddiadau hyn.* |
| **8** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *– Nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet**.*** |